# PARTNERU PRAWF CYMRU: CAMU YMLAEN

*Dewch i weld sut mae modd i'ch menter cymdeithasol weithio gyda Prawf Cymru*

Mae Llywodraeth Clymbleidiol y DU wedi cynnig newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae gwasanaethau rheoli troseddwyr yn cael eu comisiynu a'u darparu yn y dyfodol. Mae'r newidiadau yma yn creu cyfleoedd cyffrous ar gyfer mentrau cymdeithasol i ddatblygu'n bartneriaid a darparwyr gwasanaethau rheoli troseddwyr yn y dyfodol.

Mae Prawf Cymru yn cynnal gweithdy un-dydd ar gyfer cynrychiolwyr mentrau cymdeithasol Cymru sydd a diddordeb i drafod y cyfleoedd masnachol yma a gweithio mewn partneriaeth a hwy.

Mae'r gweithdy yn cael ei gynnal ar Fawrth 6ed rhwng 11 y bore a 3 y pnawn yn stadiwm SWALEC, Caerdydd. Bydd staff Prawf Cymru yn ogystal a chynrychiolwyr o sefydliadau Prawf a Chyfiawnder megis y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Carchardai Cymru a'r Gwasanaeth Prawf hefyd yn mynychu'r digwyddiad.

**Pam ddylwn i fynychu?**

Bydd cyfranogwyr yn cael y cyfle i:

- Ddysgu am fwriadau Llywodraeth Clymblieidiol y DU i'r ffordd y bydd gwasanaethau rheoli troseddwyr yn cael eu comisiynu a'u darparu yn y dyfodol;
- Trafod cyfleoedd masnachol posib ar gyfer eich sefydliad:
- Cyfarfod a datblygu cysylltiadau gyda Prawf Cymru a sefydliadau eraill.

**Pwy ddylai fynychu?**

- Mentrau neu fusnesau cymdeithasol sydd yn ymwneud â gwirfoddoli, cefnogi cyflogaeth, hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol;
- Mentrau neu fusnesau cymdeithasol sydd a diddordeb i weithio gyda, neu ymestyn eu darpariaeth cefnogi troseddwyr;
- Sefydliadau sydd yn awyddus i gydweithio, ac o bosib cyflenwi, Prawf Cymru.

**Mae llefydd ar y gweithdy yn gyfyngedig a gofynnwn yn garedig i unigolion ddatgan eu diddordeb i fynychu drwy ddarparu eu manylion cyswllt ar y ffurflen gofrestru ar-lein.**

Ar ôl cofrestru, bydd Prawf Cymru yn cysylltu a chi yn uniongyrchol gyda gwybodaeth pellach am y gweithdy. Os ydych am dderbyn rhagor o wybodaeth am y digwyddiad yma cysylltwch â Tony Kirk, Prawf Cymru ar 01656 674831/07917 507215 neu drwy e-bost Tony.Kirk@wales.probation.gsi.gov.uk